

Ymddiriedolwyr sy'n Swyddogion

1. Ymddiriedolwr sy'n Swyddog

1.1. Cyfrifoldebau penodol

- a. Cyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr Elusennol (fel y nodir yn Atodlen 2.1).
- b. Bod yn gynrychiolydd effeithiol o'r Aelodaeth.
- c. Mynd ati'n rhagweithiol i geisio adborth gan Aelodau.
- ch. Cadw'n gyfoes â materion lleol, cenedlaethol a rhyngwladol.
- d. Cyfrifoldeb am gyflawni amcanion cyffredinol UMABer.
- dd. Cyfrifoldeb am gynnal Parthau Myfyrwyr a strategaethau Ymgysylltu Myfyrwyr yn effeithiol.
- e. Cyfrifoldeb am weithredu strategaeth ar gyfer ymgyrchu a chreu newid.
- f. Rheoli rôl a chyfrifoldebau deul Ymddiriedolwr a Chynrychiolydd.

1.2. Cyfrifoldebau Tîm y Swyddogion

- a. Presenoldeb o 100% neu gyflwyno ymddiheuriadau yn y cyfarfodydd canlynol (Dim absenoldeb diesboniad)
 - i. Cyfarfodydd Cyffredinol Blynyddol
 - ii. Cyfarfodydd y Senedd
 - iii. Cyfarfodydd Parth
 - iv. Cyfarfodydd yr Ymddiriedolwyr
 - v. Cyfarfodydd y Cyngor
 - vi. Pwyllgor Gwaith y Brifysgol
- b. Sicrhau Presenoldeb Ar-lein
 - i. Cynnal perthynas â rhanddeiliaid perthnasol.
 - ii. Cynnal perthynas â Swyddogion Gwirfoddol

1.3. Cynhelir Cyfarfod Cyffredin y Senedd o leiaf ddwywaith bob semester, ond gwneir pob ymdrech i sicrhau y caiff Cyfarfodydd o'r fath eu cynnal tair gwaith y semester.

1.4. Mae'r adran hon yn amodol ar gymal 28 y Cyfansoddiad.

Cyfrifoldebau Portffolio

2. Llywydd

2.1. Bydd y Llywydd(ion) yn gyfrifol am y canlynol:

- a. Gweithredu ym mhob agwedd o'r Cyfansoddiad a'r Is-ddeddfau lle cyfeirir at Lywydd UMABer.
- b. Cadeirio Bwrdd yr Ymddiriedolwyr ac unrhyw is-grwpiau perthnasol lle cyfeirir at hynny.
- c. Sicrhau bod Tîm y Swyddogion yn adolygu materion allweddol myfyrwyr yn ogystal â materion cynrychioladol a gwleidyddol yn rheolaidd yn unol â'r aelodaeth bresennol
- ch. Sicrhau bod pob myfyriwr yn cael eu cynrychioli ac nad ydynt yn cael eu hallgau rhag UMABer
- d. Datblygu ac asesu Cynllun Strategol UMABer ar y cyd â'r Prif Weithredwr.
- dd. Gweithio gyda Phrif Weithredwr ac uwch dîm rheoli UMABer i gyflawni a ffurfio amcanion a deilliannau strategol.
- e. Sicrhau y caiff Aelodau UMABer eu cynrychioli ar lefel genedlaethol trwy gydlyn ymgysylltiad ag UCM ac UCM Cymru.
- f. Hyrwyddo gwaith ac amcanion UMABer yn gadarnhaol trwy weithredu fel llefarydd yr Undeb wrth ddelio â rhanddeiliaid a'r cyfryngau.
- ff. Mynychu Pwyllgorau priodol y Brifysgol.

g. Sicrhau bod holl brosesau democrataidd a llywodraethiant yr Undeb yn gweithredu'n effeithiol.

3. Swyddog Llesiant

3.1. Bydd y Swyddog(ion) Llesiant yn gyfrifol am y canlynol:

- a. Cynrychioli corff y myfyrwyr ar faterion sy'n perthyn i lesiant, gan gynnwys cymorth i fyfyrwyr, lles, cydraddoldeb ac amrywioldeb.
- b. Cydlynu gweithgareddau ac ymgyrchoedd sy'n ymwneud â llesiant myfyrwyr.
- c. Cynnig sail ar gyfer polisiau'r Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr ynghylch materion sy'n ymwneud â llesiant myfyrwyr.
- ch. Cynorthwyo a datblygu rhwydwaith o fyfyrwyr ar faterion llesiant trwy gadeirio'r Parth Llesiant.
- d. Gweithio gyda Phrif Weithredwr ac uwch dîm rheoli UMAber i gyflawni a ffurfio amcanion a deilliannau strategol.
- dd. Mynychu Pwyllgorau priodol y Brifysgol.
- e. Mynychu cyfarfodydd rheolaidd gydag adrannau perthnasol y Brifysgol i hyrwyddo datblygiad llesiant myfyrwyr.

4. Swyddog Materion Academaidd

4.1. Bydd y Swyddog(ion) Materion Academaidd yn gyfrifol am y canlynol:

- a. Cynrychioli corff y myfyrwyr mewn meysydd sy'n ymwneud â materion academaidd, gan gynnwys myfyrwyr rhyngwladol ac ôl-raddedig, ac ehangu cyfranogiad.
- b. Cydlynu gweithgareddau ac ymgyrchoedd sy'n ymwneud â materion academaidd.
- c. Cynnig sail ar gyfer polisiau'r Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr ynghylch meysydd sy'n ymwneud â materion academaidd.
- ch. Cynorthwyo a datblygu rhwydwaith o gynrychiolwyr academaidd trwy gadeirio'r Parth Academaidd.
- d. Gweithio gyda Phrif Weithredwr ac uwch dîm rheoli UMAber i gyflawni a ffurfio amcanion a deilliannau strategol.
- dd. Mynychu Pwyllgorau priodol y Brifysgol.
- e. Mynychu cyfarfodydd rheolaidd gydag adrannau perthnasol y Brifysgol i ddatblygu buddiannau academaidd.

5. Swyddog Cyfleoedd Myfyrwyr

5.1. Bydd y Swyddog(ion) Cyfleoedd Myfyrwyr yn gyfrifol am y canlynol:

- a. Cynrychioli corff y myfyrwyr ar faterion sy'n ymwneud â chwaraeon, cymdeithasau, gwirfoddoli a chyflogadwyedd.
- b. Cydlynu gweithgareddau ac ymgyrchoedd sy'n ymwneud â chwaraeon, cymdeithasau, gwirfoddoli a chyflogadwyedd.
- c. Cynnig sail ar gyfer polisiau'r Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr ynghylch materion sy'n ymwneud â chwaraeon, cymdeithasau, gwirfoddoli a chyflogadwyedd.
- ch. Cynorthwyo a datblygu rhwydwaith o glybiau a chymdeithasau trwy gadeirio'r Parth Chwaraeon a Chymdeithasau.
- d. Gweithio gyda Phrif Weithredwr ac uwch dîm rheoli UMAber i gyflawni a ffurfio amcanion a deilliannau strategol.
- dd. Mynychu Pwyllgorau priodol y Brifysgol.
- e. Mynychu cyfarfodydd rheolaidd gydag adrannau perthnasol y Brifysgol i ddatblygu buddiannau clybiau, cymdeithasau, gwirfoddoli a chyflogadwyedd.

6. Swyddog Diwylliant Cymru a Llywydd UMCA

6.1. Bydd Swyddog(ion) Diwylliant Cymru a Llywydd(ion) UMCA yn gyfrifol am y canlynol:

- a. Sicrhau cynrychiolaeth ddigonol ar gyfer diwylliant Cymru a'r iaith Gymraeg yn Undeb y Myfyrwyr a sicrhau bod y polisi dwyieithrwydd yn cael ei hyrwyddo.
- b. Cydlynu gweithgareddau ac ymgyrchoedd sy'n ymwneud â buddiannau siaradwyr y Gymraeg a'r rhai sy'n dysgu'r iaith.
- c. Cynrychioli anghenion yr aelodau mewn Neuaddau Preswyl cyfrwng Gymraeg.
- ch. Sicrhau bod UMABer yn cael ei gadw'n gyfoes ynghylch materion lleol a chenedlaethol sy'n effeithio ar fyfyrwyr Gymraeg eu hiaith.
- d. Lobio UCM i ddarparu cynrychiolaeth ddigonol ar gyfer diwylliant Cymru a'r iaith Gymraeg.
- dd. Gweithio gyda Phrif Weithredwr ac uwch dîm rheoli UMABer i gyflawni a ffurfio amcanion a deilliannau strategol.
- e. Mynychu Pwyllgorau priodol y Brifysgol.
- f. Cwrdd yn rheolaidd gydag adrannau perthnasol y Brifysgol i hyrwyddo anghenion siaradwyr Gymraeg a'r rhai sy'n dysgu'r iaith.